



Llawlyfr Diogelwch Gyrwyr

Ar gyfer gyrwyr cerbydau arbenigol

Rheoli fersiynau

Crëwyd: 14/2/19
Adolygydd ddiwethaf: 14/2/19
Dyddiad adolygu ?/?/??
Adolygydd: (rhowch enw)

Cynnwys

Rhagair	4
Llawlyfr i bwy yw hwn?	4
Llawlyfr cyffredinol ar ddiogelwch gyrywyr - gwaith darllen hanfodol i BOB gyrrwr.....	5
Asesiadau risg	5
Awdurdodiad i yrru	5
Rhoi gwybod am namau	5
Gyrru ar ffermydd	6
Polisi tywydd gwael	6
Ail-lenwi cerbydau a chyfarpar amaethyddol â thanwydd.....	10
Ystyriaeth ychwanegol i yrywyr cerbydau arbenigol	11
Tir anwastad	11
Y cyfarpar cywir i wneud y gwaith.....	12
Dŵr Dwfn.....	13
Gyrru i Fyny ac i Lawr Rhiwiau.....	13
Glaswellt Hir	14
Mwd.....	14
Croesi Creigiau.....	14
Eira.....	14
Cerbydau arbenigol - canllawiau arferion gorau	15
Trÿc codi telesgopig (Llwythwr Telesgopig).....	15

Trÿc Codi Gwrthbwys (Fforch godi)	17
Cerbydau amldirwedd (ATV's).....	19
Tractorau	24
E-Gators Trydan.....	30
Llwythwr Llywio Sgid	31
Cerbydau torri gwair.....	35
Trelars torri gwair a dynnir gan dractor	35
Cyfarpar chwistrellu	35
Dyrnwyr medi	36
Cerbydau eraill a darnau eraill o gyfarpar	36

Rhagair

Dogfen ganllaw yw hon. Os defnyddiwch y wybodaeth hon, dylai hynny eich cynorthwyo i gydymffurfio â'ch dyletswyddau statudol o ran arferion gyrru diogel yn rhan o'ch gwaith.

Nid yw'r ddogfen yn un gyfan gwbl gynhwysfawr, ac mae'n darparu gwybodaeth - heb fod mewn trefn benodol - ynghylch y prif risgiau a allai ddod i ran gyrrwr wrth eu gwaith, yn rhan o'u harferion gwaith.

Gan mai dim ond cyngor ac arweiniad ar gyfer cerbydau arbenigol a geir yn y llawlyfr hwn, fel gyrrwr mae'n RHAID ichi ddarllen y Llawlyfr Cyffredinol ar Ddiogelwch Gyrrwyr, gan y bydd hwnnw'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am ddiogelwch nad yw'n cael ei chwmpasu yn y llawlyfr hwn.

Cofiwch y daw gyrru bws mini â'i gyfrifoldebau ychwanegol, ac mae llawlyfr ar wahân ar gael i bob gyrrwr bws mini - 'Gyrru Bws Mini, Canllawiau Arferion Gorau'.

Llawlyfr i bwy yw hwn?

Nod y llawlyfr hwn yw rhoi cyngor a chyfarwyddyd i yrwyr a phobl sy'n defnyddio cerbydau a chyfarpar arbenigol, megis y rhai a ddefnyddir mewn gweithgareddau amaethyddol, garddwriaethol, ymchwil ac unrhyw weithgareddau oddi ar y ffordd eraill.

I osgoi unrhyw amheuaeth, ystyr cerbyd arbenigol yw cerbyd nad yw'n gar, fan neu fws mini. Mae cyfarpar arbenigol yn cyfeirio at unrhyw gyfarpar sy'n sownd wrth gerbyd arbenigol, neu sy'n cael ei dynnu ganddo.

Awdurdodiad i yrru

Cyn ichi allu gyrru cerbyd y Brifysgol, gan gynnwys cerbydau oddi ar y ffordd, rhaid ichi fod yn yrrwr awdurdodedig. Cewch hyd i ganllawiau i'ch helpu i ymgymryd â'r broses hon yn y Llawlyfr Cyffredinol ar Ddiogelwch Gyrwyr a'r polisïau cysylltiedig. PEIDIWCH â gyrru cerbyd hyd nes eich bod wedi eich cynnwys yn y Gronfa Ddata Gyrwyr Awdurdodedig.

Rhoi gwybod am namau

Yn unol â Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998 (PUWER), dylid cynnal gwiriadau os oes risg sylweddol wedi dod i'r amlwg i'r gyrrwr neu i bobl eraill wrth gynnal gwiriadau ar y cyfarpar gwaith neu wrth eu defnyddio. Bydd yr angen am wiriadau yn unol â'r Rheoliadau hyn yn dibynnu ar natur y cyfarpar, ymhle a sut y caiff ei ddefnyddio a'r risg bosib o'i ddefnyddio.

Gallai gwiriadau amrywio o wiriad gweledol cyflym i archwiliad a phrawf manwl.

Rhaid i ddefnyddwyr sicrhau:

- Os yw diogelwch cyfarpar yn dibynnu ar yr amodau pan y'i gosodwyd, caiff y cyfarpar ei archwilio ar ôl ei osod a chyn ei ddefnyddio, neu ar ôl iddo gael ei roi at ei gilydd ar safle newydd;
- Pe gallai'r amodau niweidio'r cyfarpar, caiff y cyfarpar ei wirio ar adegau addas a phob tro y bydd rhywbeth eithriadol yn digwydd, e.e. os yw'r cyfarpar yn cael ei ddifrodi neu os yw'n methu'n ddifrifol.

Dyma rai enghreifftiau o eitemau y mae eu diogelwch yn hanfodol o dan y gofynion uchod, y gallai fod angen eu harchwilio'n rheolaidd: giardia PTO, giardia peirannau torri gwair, cyflwr cab y tractor, bar gwrtholio sydd wedi'i ddifrodi mewn damwain a'r brêc parcio. Rhaid i bob gwiriad a gynhaliwyd yn unol â PUWER gael ei gofnodi a rhaid dogfennu a chadw'r canlyniadau.

Rhaid i Reolwyr Llinell hefyd sicrhau na chymerir cyfarpar gwaith pan fydd yn cael ei ddefnyddio ar dasg arall (naill ai ar fenthyg neu ar log) a'i ddefnyddio, oni bai y darperir tystiolaeth hefyd o'r gwiriadau a'r archwiliadau a gynhaliwyd yn unol â PUWER.

I gydymffurfio â deddfwriaeth, dylech gynnal gwiriadau ar beiriannau yr ydych ar fin eu defnyddio, neu roi caniatâd i rywun arall eu defnyddio, er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn gweithio'n iawn. Dylai fod yn syml ichi gynnal y gwiriadau hyn. Dylech ddefnyddio'r taflenni gwirio a ddarparwyd gan Brifysgol Aberystwyth sydd ar gael yma:

<https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/vehicle-inspection-sheets/>

Mae cadw cofnod o bryd yn union y gwiriwyd y peiriannau, a pha waith sydd wedi'i wneud arnynt, yn bwysig iawn. Gall y cofnodion hyn helpu i ddangos bod peiriant yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda a'i fod yn cael ei wirio'n rheolaidd, yn arbennig pan gaiff ei archwilio neu os oes damwain wedi digwydd.

Diben y gwiriadau hyn yw lleihau'r risg o ddamwain yn digwydd o gwbl, gan y gallai namau ddod i'r amlwg. Dylid sicrhau nad yw'r peiriant yn cael ei ddefnyddio, a dylid sôn amdano wrth y Rheolwr Llinell a'i drwsio'n syth neu gyn gynted ag y bo modd.

Rhaid i Reolwyr Llinell sicrhau bod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda er mwyn sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithlon. Yma, nid oes a wnele "effeithlonrwydd" y cyfarpar ddim â chynhyrariant, ond yn hytrach ag iechyd a diogelwch pob rhan o'r peiriant. Rhaid i gyflogwyr sicrhau bod giardiaau PTO, brêcs, pibelli hydrolig ac ati, yn cael eu cadw mewn cyflwr da fel y gallant weithio'n effeithiol bob amser.

Dylid gwirio'r cyfarpar yn rheolaidd i sicrhau nad yw'n dirywio ac yn peri risg i bobl. Mae pa mor aml y dylid cynnal gwiriadau yn dibynnu ar y cyfarpar ei hun a'r risg sydd ynghlwm wrth ei ddefnyddio. Gellid ei wirio bob tro cyn ei ddefnyddio, bob dydd, bob wythnos neu gall y bwch fod yn hirach fyth. Dim ond person cymwys ddylai gynnal gwaith cynnal a chadw. Yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr, dylid cynnal gwiriadau cynnal a chadw rheolaidd ar bob darn o gyfarpar.

Os oes gan beiriant lòg cynnal a chadw, dylid ei ddiweddarau'n rheolaidd. Dylai'r llyfr lòg roi gwybodaeth er mwyn cynllunio tuag at y dyfodol ac i roi gwybod i staff cynnal a chadw ac eraill ynglŷn â'r camau a gymerwyd.

Gyrru Cerbydau Arbenigol

Oherwydd yr ystod eang o weithgareddau sy'n cynnwys trafndiaeth, rhaid ystyried pethau'n ofalus wrth yrru yn yr ardaloedd gwaith hyn neu o'u cwmpas, a RHAID bod yn hynod ofalus. Rhaid glynu wrth y rheolau hyn bob amser;

Rhaid i yrwyr cerbydau ddilyn y weithdrefn 'Stopio Diogel':

1. Codi'r brêc llaw
2. Rhoi'r rheolyddion mewn safle niwtral
3. Diffodd yr injan (neu ddiffodd y pŵer)
4. Tynnu'r allwedd allan (neu ddiffodd y cyflenwad pŵer)

Dylid dilyn y weithdrefn hon;

- cyn gadael sedd y gyrrwr/safle gyrru'r cerbyd;
- pan fo rhywun arall yn nesáu atoch;
- cyn i rywun gynnal gwaith cynnal a chadw, addasiadau neu ddelio â rhywbeth sydd wedi'i flocio.

Wrth yrru a gweithredu cerbyd, sicrhewch eich bod yn glynu wrth y pethau hyn;

Cerbyd diogel;

Sicrhewch fod y cerbydau, y peiriannau a'r cyfarpar trafod yn:

- addas ar gyfer y gwaith ac yn gallu ymgymryd â'r gwaith yn ddiogel, a bod ganddynt bethau i'ch cynorthwyo i yrru am yn ôl, megis drychau;
- eu bod wedi'u gwirio cyn eu defnyddio i weld a oes namau arnynt a'u hatgyweirio'n brydlon;

- eu bod wedi'u cynnal a'u cadw'n gywir, gan roi sylw arbennig i'r systemau brecio.

Gwiriwch fod gan y cerbydau, neu unrhyw beiriannau y mae gweithwyr yn eu reidio neu'n gweithio arnynt, strwythurau diogelu wrth droi drosodd (ROPS) a gwregysau diogelwch os oes perygl o rollo drosodd.

Sicrhewch fod:

- gyrwyr tryciau codi a llwythwyr wedi'u diogelu rhag gwrthrychau a allai syrthio arnynt;
- bod llwythi yn sefydlog ac yn ddiogel;
- bod gan drelars frêcs digon cryf i ddelio â'r pwysau a'r cyflymdra uchaf ar eu cyfer;
- bod yr allweddi'n cael eu cadw'n ddiogel pan nad yw'r cerbydau'n cael eu defnyddio.

Gyrwyr diogel:

Rhaid i yrwyr:

- fod yn ddigon iach i yrru;
- fod wedi cael hyfforddiant cywir a dylid cofio na chaiff pobl anawdurdodedig yrru;
- gwybod sut i fynd i mewn a dod allan o'r cerbyd yn ddiogel.

Peidiwch byth â chaniatáu i deithwyr reidio ar ben neu oddi mewn i gab cerbyd oni bai eu bod yn eistedd ar sedd bwrpasol mewn man diogel ac na allant amharu ar y gyrrwr, cyffwrdd yn ddamweiniol â'r rheolyddion neu rwystro'r gyrrwr rhag gweld. Ni ddylai neb geisio mynd ar gerbyd, neu ddo oddi ar gerbyd, os yw'n symud.

Safle diogel:

Sicrhewch fod:

- cerbydau a cherddwyr ar wahân lle bo hynny'n bosib;
- bod gyrwyr sy'n ymweld â'r safle yn gwybod am eich rheolau, gan gynnwys y rheolau sy'n ymwneud â'r manau parcio, y systemau un ffordd, ac ati;
- bod llwybrau cerbydau'n lleihau'r angen i yrru cerbydau am yn ôl, e.e. drwy ychwanegu manau troi neu drwy ddefnyddio'r systemau un ffordd;
- bod y llwybrau traffig yn cael eu cynnal a'u cadw a'u goleuo'n ddigonol;
- Bod yr arwyddion rhybudd a'r arwyddion cyfyngiadau cyflymder i'w gweld yn glir a'u bod yn gyson â Rheolau'r Ffordd Fawr.
- Bod seilios a storfeydd wedi'u lleoli mewn man diogel ac yn ddigon pell o hawliau tramwy cyhoeddus, er mwyn lleihau'r risg pan fo bwyd anifeiliaid yn cael ei gludo i'r safle.
- Dylai nwyddau gael eu cludo i'r safle mewn man sy'n ddigon pell o hawliau tramwy cyhoeddus.

Peidiwch byth â symud neu gerdded tuag at neu wrth ymyl cerbyd sy'n gyrru am yn ôl. Os oes rhaid ichi ddynesu ato, dylech dynnu sylw'r gyrrwr yn gyntaf pan fydd yn ddiogel ichi wneud hynny a gofynnwch i'r gyrrwr stopio'r injan, yn enwedig os oes angen ichi siarad ag ef/hi neu gamu ar y peiriant.

- Dylid gosod larymau ar gerbydau (lle bo hynny'n bosib) er mwyn rhybuddio pobl pan fo cerbydau'n gyrru am yn ôl
- Peidiwch byth â cheisio gwasgu eich hun rhwng cerbyd sy'n symud a drws neu wrthrych sefydlog
- Lle bo hynny'n bosib, dylai fod gan adeiladau ddrysau ar wahân i gerbydau a cherddwyr
- Gwisgwch ddillad llachar er mwyn i bobl eraill eich gweld

Ail-lenwi cerbydau a chyfarpar amaethyddol â thanwydd

Mae'r tanwydd ar gyfer y cerbydau a'r peiriannau amaethyddol yn cael ei storio yn Nhrawsgoed a Gogerddan. Caiff y mannau storio / cynwysyddion eu cadw dan glo er mwyn atal defnydd anawdurdodedig. Mae pobl awdurdodedig wedi cael allwedd fel y gallant fynd i mewn i'r mannau hyn. Wrth ichi ail-lenwi cerbydau a pheiriannau â thanwydd, rhaid llenwi'r llyfr lù gan roi manylion yr unigolyn, y dyddiad ail-lenwi a faint o danwydd a ddefnyddiwyd. Ceir rhai gofynion arbennig sy'n ymwneud ag ail-lenwi cerbydau amaethyddol â thanwydd. Dyma nhw:

- Sicrhewch eich bod yn defnyddio'r tanwydd cywir.
- Byddwch ofalus pan fyddwch yn ail-lenwi tractorau neu beiriannau fferm eraill â thanwydd. Mae risg bob tro y gallech achosi tân neu ffrwydrad. Peidiwch byth ag ail-lenwi'r tractor â thanwydd wrth i'r injan redeg neu os yw'n boeth. Dylech ail-lenwi'r tractor â thanwydd y tu allan bob tro. Gallai trydan statig, gwreichionen o'r system danio neu bibell fwg boeth beri i'r tanwydd danio.
- Storiwch eich tanwydd y tu allan. Cliriwch unrhyw chwyn neu ddeunydd llosgadwy arall o'r fan. Cadwch becyn cymorth cyntaf gyda chi ynghyd â diffoddydd tân cemegol sych cymeradwy. Dylai fod gan dractorau ddiffoddydd 2kg fan leiaf.
- Sicrhewch fod gennych chi ddigon o awyr iach cyn ichi danio injan y tractor. Mae nwyon llosg yn cynnwys carbon monocsid. Ni allwch weld carbon monocsid ac nid yw'n arogl.
- Edrychwch am unrhyw gyrsiau dŵr, draeniau ar y safle, systemau a llwybrau draenio a allai fod gerllaw (Dylech dybio bod y draeniau i gyd yn gollwng i ddŵr wyneb) a rhowch fesurau rheoli ar waith.
- Dylech ddewis man i ail-lenwi cerbydau â thanwydd sydd wedi'i byndio ac sy'n ddigon pell o'r llwybrau draenio dŵr wyneb.
- Cadwch becynnau ymateb i ollyngiadau mewn argyfwng gyda chi yn y mannau ail-lenwi cerbydau â thanwydd ac esboniwch wrth staff sut i'w defnyddio.

- Os ydych yn ymgymryd â gweithgareddau ail-lenwi cerbydau â thanwydd symudol, cariwch becyn ymateb i ollyngiad â phob browser.
- Rheolwch a chofnodwch bob achos o ollyngiadau tanwydd ar dractorau, peiriannau trymion, cyfarpar a pheiriannau.
- Sicrhewch fod y bobl ar y safle yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau ymateb i argyfyngau a pha gamau y dylid eu cymryd os bydd rhywbeth wedi'i ollwng neu os bydd tân.
- Glanhewch unrhyw sylweddau sydd wedi'u gollwng ar ôl ichi orffen y dasg a gwaredwch â gwastraff peryglus.
- Ail-stociwch y pecyn gollyngiadau os ydych wedi'i ddefnyddio.
- Sicrhewch fod gennych chi rifau ffôn pobl allweddol os bydd angen ichi gysylltu â nhw mewn argyfwng.
- Sicrhewch fod y staff ar y safle yn gwybod beth yw'r gweithdrefnau adrodd cywir mewn argyfwng.

Ystyriaethau ychwanegol i yrwyr cerbydau arbenigol

Ystyrir bod y canllawiau isod yn gyngor cyffredinol i bobl sy'n gyrru oddi ar y ffordd. Fodd bynnag, efallai bod gan eich cerbyd neu gyfarpar ofynion gweithredu penodol, felly mae'n rhaid ichi ddod yn gyfarwydd â llawlyfr y cerbyd neu'r cyfarpar, neu ag arferion gweithredu lleol.

Tir anwastad

Wrth yrru drwy dir anwastad:

- Gyrrwch yn llyfn
- Sicrhewch eich bod yn llywio'r cerbyd yn bwylllog ac yn gywir
- Breiciwch gyn lleied ag y gallwch - er bod hyn yn groes i'r graen, y dechneg sy'n bwysig wrth yrru oddi ar y ffordd mewn cerbyd gyriant pedair olwyn

- Wrth roi'ch troed ar y sbardun, gwnewch hynny'n ysgafn a rhyddhewch y sbardun yn araf. Drwy wneud hyn, ni fyddwch yn troelli'ch olwynion.
- Sicrhewch fod gennych chi reolaeth dros y cerbyd bob tro.

Sut i oresgyn rhwystrau

- Wrth ichi ddynesu at rwystr megis boncyff, creigiau neu ffosydd, sicrhewch fod gennych chi o leiaf dair olwyn ar y ddaear bob tro.
- Cyn ichi dacllo rhwystr, sicrhewch fod eich teiars yn llawn aer ac y gall gwaelod eich cerbyd glirio'r rhwystr
- Wrth ichi ddynesu at gefnen, ewch yn syth ati, ond gwnewch hynny'n ofalus

Y cyfarpar cywir i wneud y gwaith

Mae dewis y cyfarpar cywir yn bwysig. Dyma le bydd eich hyfforddiant a'r gwaith i ymgyfarwyddo â'r cerbyd yn ddefnyddiol ichi. Mae'r tabl isod yn rhoi canllaw cyffredinol ar sut i ddefnyddio cerbydau oddi ar y ffordd sydd â gyriant pedair olwyn.

Tir	Y gêr a argymhellir
Tywod	Y 3ydd, 4ydd neu'r 5ed gêr yw'r gorau'n aml wrth yrru ar draciau tywodlyd mewn gyriant isel.
Tir Creigiog	Gyriant isel yn y gêr cyntaf yn aml sydd orau wrth yrru oddi ar y ffordd ar dir creigiog.
Tir Meddal	Wrth yrru oddi ar y ffordd ar dir meddal, gyriant isel yn yr 2il neu'r 3ydd gêr sydd orau.
Dringo Rhwystrau	Wrth ichi ddringo rhwystrau megis llethrau, defnyddiwch y gêr uchaf sy'n ymarferol.
Rhwystrau Disgynnol	Wrth ichi ddod i lawr rhwystrau megis llethrau, gyriant isel yn y gêr cyntaf yn aml sydd orau.

Tir Rhewllyd	Wrth ichi yrru ar dir rhewllyd megis eira ac îâ, defnyddiwch y gêr uchaf bosib.
Gyrru drwy ddŵr	Pan fyddwch yn gyrru drwy ddŵr, defnyddiwch yr 2il gêr ar yr iant isel i sicrhau'r canlyniadau gorau.

Dŵr Dwfn

Cyn ichi fynd i mewn i ddŵr dwfn, rhaid ichi edrych a yw'r gwaelod yn solet neu ai mwd meddal sydd yno. Dylech edrych i weld hefyd a oes unrhyw dyllau dan y dŵr. Mae'r teiars yn gweithredu fel fflotiau, felly gall ceryntau dyfnion a chryfion i'r ochr effeithio ar lywio cyfeiriol.

Gyrrwch yn araf ac yn bwylllog gan wthio ton ysgafn o flaen eich cerbyd. Mae'r don yn lleihau lefel y dŵr y tu mewn i fae'r injan. Peidiwch â stopio neu gyflymu wrth yrru drwy'r tonnau. Rhaid ichi yrru'n bwylllog ac yn gyson. Mae'n anodd aildechrau cerbydau os yw'r dŵr yn cyrraedd y system gwacau nwyon.

Ar ôl ichi adael y dŵr, sicrhewch fod eich brêcs yn gweithio. Ceisiwch sychu esgidiau a drymiau eich brêcs drwy wasgu'r brêcs yn ysgafn dros bellter bychan. Bydd y disgiau'n sychu'n gynt. Os yw'r cerbyd wedi bod yn gyrru mewn dŵr mwdlyd, mae'n bosib y bydd angen i fecanydd cymwys ei archwilio a'i lanhau.

Mewn dŵr sy'n eithriadol o ddwfn, bydd angen snorcel arnoch sy'n ffitio'n dda, yn ogystal ag offer trydanol ym mae'r injan sy'n gallu gwrthsefyll dŵr.

Gyrru i Fyny ac i Lawr Rhiwiau

Mae'r syniad da ichi osgoi creigiau, bonion a thyllau pan fyddwch yn gyrru i fyny ac i lawr rhiwiau. Os gallwch chi, cymerwch olwg ar y rhiw i sicrhau ei bod yn ddiogel i'r cerbyd.

Dewiswch y gêr, yna ewch gan bwyll. Peidiwch â rhoi gormod o droed ar y sbardun, ond ceisiwch osgoi gwneud i'r injan stopio. Os yw olwyn yn troelli,

tynnwch eich troed oddi ar y sbardun fel y gall yr olwynion gael gafael yn y ddaear eto. Os dowch i stop ar y rhiw, gwasgwch y brêcs a dewiswch y gêr ôl yn syth. Gollyngwch eich gafael ar y brêc a gwasgwch y clytsh i'r gwaelod.

I fynd i lawr y rhiw, newidiwch gêr i lawr i arafu'r cerbyd yn hytrach na defnyddio'r brêcs gan y gallai brecio i lawr rhiw wneud i'r olwynion gloi. Drwy wneud hyn, gallech golli rheolaeth dros lyw'r cerbyd, llithro'n lletraws a hyd yn oed droi drosodd. I adennill rheolaeth dros y cerbyd os yw'n dechrau llithro, rhowch eich troed ar y sbardun rhyw fymryn er mwyn i'r olwynion dynnu'r cerbyd am ymlaen unwaith eto.

Glaswellt Hir

Byddwch yn ofalus iawn wrth yrru mewn glaswellt hir gan y gallai fod peryglon cudd yno. Gall glaswellt hir iawn lapio am bwli'r crancsiafft neu danio ar bibell fwg boeth.

Mwd

Gall gyrru drwy fwd fod yn un o'r pethau mwyaf rhwystredig, yn enwedig os ewch yn sownd ynddo. Un ffordd o atal hyn yw parhau i symud yn ara' bach, ac os teimlwch chi eich bod yn dechrau mynd yn sownd, trowch eich olwyn i'r chwith ac i'r dde i weld lle mae'r olwynion yn gafael orau. Os ewch chi'n sownd, ceisiwch siglo'ch cerbyd yn ôl ac ymlaen tan ichi ennill digon o fomentwm i'ch cael chi allan.

Croesi Creigiau

Os oes angen ichi groesi creigiau mawrion, ceisiwch yrru'n syth. Rhan fwyaf bregus y teiar yw'r ochr. Os oes gan eich cerbyd blwch gêr awtomatig, ceisiwch wasgu'r brêc yn ysgafn gan nad yw blychau gêr awtomatig yn arafu'r cerbyd cystal.

Eira

Osgowch newid gêr yn ddiangen a defnyddiwch gêr priodol a fydd yn cadw'r cerbyd i fynd ar gyflymdra cyson. Gallai'r eira fod yn cuddio sawl rhwystr,

megis creigiau, brigau, ac ati. Cadwch ar ochr uchaf y llethr a cheisiwch yrru ag un olwyn ynghanol y trac lle mae'r eira'n llai dwfn.

Cerbydau arbenigol - canllawiau arferion gorau

Nod y darn nesaf yw rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar gyfer grwpiau penodol o gerbydau neu gyfarpar cysylltiedig. Canllaw yn unig yw hwn. Mae'n rhaid ichi hefyd gael hyfforddiant go iawn a darllen unrhyw gyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio cerbydau neu gyfarpar penodol.

Trÿc codi telesgopig (Llwythwr Telesgopig)

Aesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Rhaid ichi fynd ar gwrs hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan y Brifysgol cyn y caniateir ichi yrru'r math hwn o gerbyd. Darllenwch lawlyfr y peiriant yn drwyadl ac ewch ati i ymgyfarwyddo â'r holl symbolau a'r cyfarpar diogelwch. Byddai'n ddefnyddiol ichi gofio'r pwyntiau canlynol:

Cynnal a chadw - Er mwyn sicrhau nad yw cyfarpar gwaith yn dirywio i'r fath raddau fel y gallai beri risg i bobl, mae angen i reolwyr sy'n rheoli cyfarpar gwaith, dan y Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER), 'ei gadw mewn cyflwr effeithlon, sicrhau ei fod yn gweithio'n effeithlon a'r fod mewn cyflwr da'.

Dylid penderfynu ar amllder a natur y gwaith cynnal a chadw trwy gynnal asesiadau risg, gan roi ystyriaeth lawn i:

- argymhellion y gwneuthurwr
- dwysedd y defnydd
- yr amgylchedd (e.e. effaith y tymheredd, cyrydiad, hindreuliad)
- gwybodaeth a phrofiad y defnyddiwr
- y risg i iechyd a diogelwch yn sgil unrhyw fethiant neu ddiffyg y gellid ei ragweld

Mae Llwythwyr Telesgopig yn beiriannau codi a, chan hynny, bydd angen i rywun arall eu harchwilio'n drwyadl dan Reoliadau Gwaith Codi a Chyfarpar Codi 1998, unwaith bob 12 mis (neu unwaith bob 6 mis os cânt eu defnyddio i godi pobl).

Gwiriadau - Dylech gynnal archwiliad gweledol a gweithredol cyn ichi ddefnyddio'r peiriant a dim ond os yw'r peiriant mewn cyflwr da y dylech ddechrau gweithio.

Canolbwyntiwrch pan fyddwch yn llwytho'r Llwythwr Telesgopig -

Sicrhewch bob tro nad yw'r llwyth yn fwy na'r pwysau uchaf a ganiateir. Gallai llwyth eithriadol o drwm beri i'r Llwythwr Telesgopig fynd ar ogwydd. Mae gan y rhan fwyaf o Llwythwyr Telesgopig system ddiogelwch sy'n golygu nad oes modd cario llwythi sy'n drymach na'r hyn a ganiateir. Cewch hyd i'r uchafswm pwysau ar gyfer eich Llwythwr Telesgopig yn y llawlyfr defnyddwyr.

Canolbwyntiwrch tra byddwch yn gyrru - Peidiwch â gadael i ddim byd dynnu eich sylw tra byddwch yn gyrru. Sicrhewch eich bod yn gallu gweld y llwybr o'ch blaen yn glir iawn. Os na allwch chi weld ymhellach na dau fetr y tu hwnt i'ch llwyth, dylech yrru am yn ôl. Dylech wneud hyn hefyd pan fyddwch yn cario llwythi ansefydlog neu baledi a all lithro i ffwrdd o'r ffyrch. Gofynnwch am help os oes rhaid ichi yrru ymlaen wrth gario llwyth sy'n eich rhwystro rhag gweld yn iawn.

Cadwch y ffyrch 30cm oddi ar y ddaear bob tro - Rhaid i'r pellter rhwng y ddaear a'r ffyrch neu'r atodiad fod yn 30cm pan fyddwch yn gyrru Llwythwr Telesgopig. Pan fyddwch yn cario llwyth, dylech ei gadw +/- 30cm uwchben y ddaear a dylech ogwyddo'r cludwr fforch am yn ôl. Dylech dalu sylw arbennig i uchder y fforch ar wynebau anwastad, a newidiwch yr uchder os oes angen. Wrth ichi symud llwythi dros bellterau mawr, rhaid i'r bŵm telesgopig fod wedi'i dynnu'n ôl bob tro. Gwnewch yn siŵr bod y bobl sy'n eich helpu neu bobl eraill yn cadw'n ddigon pell tra byddwch yn llwytho. Peidiwch byth â chaniatáu i neb gerdded neu sefyll yn stond oddi tan y llwyth.

Newidiwch eich ymddygiad wrth yrru - Gall Llwythwyr Telesgopig yrru ar gyflymder o 25 milltir yr awr ar ffyrdd cyhoeddus. Mae pethau'n wahanol ar safleoedd oddi ar y ffordd. Yma, rhaid ichi newid eich cyflymder i siwtio'r sefyllfa. Pan fyddwch yn gyrru ar dir garw yn rhy gyflym, gallwch gollu rheolaeth dros y llyw a'r Llwythwr Telesgopig. Dylech felly ystyried y tir a llwyth y Llwythwr Telesgopig bob tro. Wrth ichi fynd rownd cornel, byddwch yn teimlo grym allgyrchol. Mae hyn yn golygu bod y nwyddau'n cael eu tynnu at ochr allanol y tro. Peidiwch byth â dechrau, stopio neu newid cyfeiriad yn ddisymwth pan fyddwch yn gyrru ar gyflymder uchel. Dylech yrru i fyny ac i lawr llethrau yn bwylllog ac ar gyflymder priodol. Gall y symudiadau sydyn ac annisgwyl hyn beri i'r Llwythwr Telesgopig gollu'i lwyth neu fynd ar ogwydd.

Gyrrwch am ymlaen bob tro pan fyddwch yn dringo rhiw - Gyrrwch yn syth ymlaen bob tro y byddwch yn dringo rhiw. Felly peidiwch â dringo llethr ar letraws a pheidiwch byth â dechrau troi ar lethr. Ar ôl llwytho, rhaid i'r llwyth fod yn y safle uchaf mewn perthynas â'r rhiw (ymlaen i fyny'r rhiw ac am yn ôl i lawr y rhiw). Ar lethrau, rhaid ichi godi'r fforch a phwyso am yn ôl ragor fel na fyddwch yn dod i gyswllt â'r ddaear.

Trÿc Codi Gwrthbwys (Fforch Godi)

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Gwiriadau - Mae'n bwysig cynnal gwiriadau ar eich Trÿc Codi Gwrthbwys cyn ichi ei yrru er mwyn sicrhau bod popeth yn gweithio'n iawn. Gwnewch yn siŵr ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.

Hyfforddiant - Rhaid ichi fynd ar gwrs hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan y Brifysgol cyn y caniateir ichi yrru'r math hwn o gerbyd. Darllenwch lawlyfr y peiriant yn drwyadl ac ewch ati i ymgyfarwyddo â'r holl symbolau a'r cyfarpar diogelwch. Byddai'n ddefnyddiol ichi gofio'r pwyntiau canlynol:

Y Gwrthbwys - Gall tryciau codi gwrthbwys godi a chario llwythi trymach na rhai mathau eraill o dryciau codi oherwydd y pwysau ychwanegol yng

nghefn y trÿc. Diben y gwrthbwys yw helpu i wasgaru'r pwysau wrth iddo wrthbwysu'r llwyth, fel yr awgryma'r enw. Nid oes modd newid pwysau'r gwrthbwys hwn gan y byddai hyn yn gwneud pethau'n ansefydlog a pheryglus i'r gyrrwr a'i gydweithwyr.

Y Pwynt Ffwlcrwm - Enw arall ar bwynt ffwlcrwm fforch godi yw pwynt colyn, gan mai dyma le gall fforch godi golyddu neu gwympo am ymlaen os yw'r llwyth yn rhy drwm. Meddyliwch amdano fel si-so mewn parc chwarae. Os oes pwysau cyfartal ar y ddwy ochr, mae'n cydbwysu. Ond, os yw'r pen sy'n cario'r llwyth yn drymach, rhaid symud y llwyth yn nes at y pwynt ffwlcrwm i gynnal y cydbwysedd. Bydd hyfforddiant ar sut i ddefnyddio fforch godi yn eich helpu i ddeall sut i lwytho'r trÿc a chario llwyth yn gywir fel bod popeth yn sefydlog.

Y Triongl Sefydlogrwydd - Mae'r triongl sefydlogrwydd yn debyg i whilber. Yr olwynion blaen yw rhan fwy sefydlog y triongl a rhwng yr olwynion cefn y mae'r rhan fwy ansefydlog. Os yw'r craidd disgyrchiant yn symud y tu allan i'r triongl sefydlogrwydd, bydd y fforch godi'n cwmpo i'w ochr. Bydd hyfforddiant ar sut i ddefnyddio fforch godi yn eich helpu i osgoi hyn, e.e. byddwch yn dysgu sut i wirio gwasgedd y teiars, osgoi troi ar lethr a throi'n araf.

Cynnal a chadw - Efallai nad ydych yn beiriannydd tryciau fforch godi, ond mae pethau y byddwch yn eu dysgu tra byddwch yn hyfforddi a fydd yn eich helpu i weithio'n ddiogel. Mae gwirio gwasgedd y teiars a'r olew, sicrhau bod y corn a'r goleuadau'n gweithio, ac edrych am ddarnau llach yn y cadwyni yn dasgau pwysig i yrwyr fforch godi. Os nad yw rhywbeth yn gweithio'n iawn, rhaid ei drwsio'n syth neu gael fforch godi arall. Chi, fel gyrrwr y fforch godi, sy'n gyfrifol am ofalu am y peiriannau ac am sicrhau eu bod yn ddiogel i chi ac i eraill.

Diogelwch a Sut i Osgoi Damweiniau - Un o'r prif bynciau yn yr hyfforddiant ar sut i ddefnyddio fforch godi yw diogelwch ac osgoi damweiniau yn y gweithle. Gellir osgoi damweiniau drwy ddilyn y weithdrefn gywir bob tro. Chi, fel gyrrwr y fforch godi, sy'n gyfrifol am bawb o'ch cwmpas, yn union fel

petaech yn gyrru cerbyd ar y ffordd. Mae defnyddio'r corn a'r goleuadau yn fesurau diogelwch pwysig.

Cerbydau Amldirwedd (ATV's) (Eistedd i Mewn ac Eistedd ag Un Goes bob Ochr)

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Rhaid ichi fynd ar gwrs hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan y Brifysgol cyn y caniateir ichi yrru'r math hwn o gerbyd. Darllenwch lawlyfr y peiriant yn drwyadl ac ewch ati i ymgyfarwyddo â'r holl symbolau a'r cyfarpar diogelwch. Byddai'n ddefnyddiol ichi gofio'r pwyntiau canlynol:

Gwiriadau cyn cychwyn - Dylech gynnal gwiriadau bob tro cyn ichi ddechrau gyrru'r cerbyd. Dylai'r gwiriadau gynnwys y canlynol;

- Gwiriwch fod y brêcs yn gweithio - y brêcs traed a'r brêcs llaw
- Edrychwch i weld beth yw cyflwr y teiars a sicrhewch nad oes traul na difrod amlwg i'w gweld arnynt.
- Gwiriwch wasgedd y teiars, gan ddefnyddio mesurydd gwasgedd sy'n gallu darllen gwasgedd isel yn gywir (gall gwahaniaeth o 1 psi ei gwneud yn anodd ichi reoli'r cerbyd)
- Sicrhewch fod y llyw yn gweithio'n iawn ac yn llyfn
- Sicrhewch fod y sbardun yn gweithio'n llyfn ymhob cyfeiriad llywio
- Sicrhewch fod nyttiau'r olwynion yn sownd
- Sicrhewch fod y sedd, y cludwyr a'r llwythi'n ddiogel
- Sicrhewch fod pob golau, gan gynnwys y goleuadau rhybuddio, yn gweithio
- Sicrhewch fod y clytsh (os mai clytsh llaw ydyw) yn gweithio'n iawn ac yn llyfn
- Sicrhewch fod gennych ddigon o danwydd ar gyfer y daith yr ydych yn bwriadu mynd arni
- Sicrhewch fod y gwregysau diogelwch yn gweithio (os oes rhai wedi'u darparu)

Stopio a chychwyn - Dilynwch y drefn hon:

- Peidiwch â gadael yr injan i redeg am gyfnod hir pan fyddwch wedi parcio mewn mannau caeedig
- Eisteddwch â choes bob ochr i'r cerbyd amldirwedd wrth danio'r injan. (Mae'n bosibl na fydd modd gwneud hyn ar rai modelau lle mae'n rhaid tynnu er mwyn tanio)
- Sicrhewch fod y blwch gêr mewn niwtral wrth danio
- Parciwch y cerbyd amldirwedd mewn lle addas bob tro, gan gofio defnyddio'r brêc parcio

Cynllunio llwybr eich taith - Wrth gynllunio llwybr eich taith, dylai gyrwyr ofalu osgoi llethrau serth ac amodau lle mae'r ddaear yn ansefydlog, ac edrych yn fanwl o hyd ar lystyfiant dwfn er mwyn ceisio canfod rhwystrau cudd.

Dylai gyrwyr gynllunio llwybrau i'w defnyddio'n rheolaidd er mwyn osgoi creigiau, bonion coed, ffosydd draenio a llethrau serth.

Gyrru yn gyffredinol - Dylai gyrwyr bob amser yrru â'r gofal a'r sylw dyladwy, a bod yn ymwybodol o bobl eraill o'u cwmpas. Byddai'n ddefnyddiol ichi gofio'r pwyntiau canlynol:

- Dim ond llwybrau sydd o fewn gallu'r cerbyd amldirwedd a'r sawl sy'n ei yrru y dylid eu dewis a'u defnyddio, a dylech bob amser yrru â'ch traed ar y cynhalwyr traed
- Peidiwch â chadw pwysau ar y lifer newid gêr gan y gall hyn roi'r blwch gêr mewn niwtral. Dylech osgoi newid gêr ar lethr a dylech ddewis gêr isel addas cyn cyrraedd llethr neu rwystr
- Sicrhewch fod y cyflymder yn addas ar gyfer y tirwedd a'r tasgau, a defnyddiwch ystum eich corff i'ch gwneud yn fwy sefydlog ar lethrau. Dylai gyrwyr fod yn ymwybodol:
 - nad oes brêcs ar olwynion blaen rhai cerbydau amldirwedd, neu os oes, y gallant fod yn llai effeithlon wrth rowlio tuag yn ôl;

- ar beiriannau gyriant pedair olwyn, bydd defnyddio unrhyw frêc yn gweithio ar yr olwynion blaen ac ôl;
- mae gan rai cerbydau amldirwedd yriant hydrostatig heb unrhyw frecio gan yr injan os na cheir unrhyw sbarduno (refio), felly daliwch ati i sbarduno rhywfaint wrth deithio i lawr rhiw.
- Ar gerbydau amldirwedd heb echel wahaniaethol (differential), dylid cadw mewn cof wrth ddewis y dechneg yrru y gwahaniaeth rhwng cyflymder yr olwyn ar y tu mewn a'r olwyn ar y tu allan wrth droi:
 - ar gyflymder isel, symudwch bwysau'r corff i'r cynhaliwr troed ar ochr allanol y tro, a gogwyddo rhan uchaf y corff i mewn i'r tro;
 - ar gyflymder uwch, symudwch bwysau'r corff i'r cynhaliwr troed ar yr ochr fewnol, a gogwyddo rhan uchaf y corff i mewn i'r tro.

Ar arwynebau palmantog, gall y ffaith bod mwy o afael atal yr olwynion mewnol rhag llithro a lleihau'r effeithlonrwydd wrth droi - gall newid disymwth o ran y tyniant achosi newid cyfeiriad. Gall defnyddio'r sbardun yn sydyn mewn gêr isel achosi i'r cerbyd amldirwedd droi drosodd tuag yn ôl, yn enwedig wrth fynd i fyny llethr. Os ydych yn teithio y tu ôl i gerbyd amldirwedd neu gerbyd arall, gwnewch yn siŵr bod digon o le rhyngoch i ganiatáu brecio'n ddiogel ac er mwyn osgoi unrhyw lwch, dŵr neu gerrig a fydd yn cael eu codi.

Gyrru ar dir anodd - wrth yrru ar dir anodd dylai gyrrwr fod yn ymwybodol o'r pethau canlynol:

- Dim ond o fewn ffiniau'r hyn y gellir ei weld y dylid gyrru
- Mae angen cadw'r sbardun yn gyson ar lethrau
- Dylid osgoi llethrau ar letrows a rhwystrau anodd trwy gynllunio llwybr y daith

- Os nad oes modd osgoi llethrau ar letraws, gogwyddwch a llywio fymryn i fyny'r rhiw
- **I fynd i fyny llethrau:**
 - dewiswch y gêr isel addas ar waelod y llethr;
 - cadwch eich pwysau mor bell ymlaen â phosibl (pwyswch dros y cyrn);
 - cyfeiriwch y cerbyd amldirwedd yn syth i fyny'r rhiw;
- **I ddod i lawr llethrau:**
 - dewiswch y gêr isel addas ar frig y llethr a defnyddiwch yr injan i frecio (os oes modd gwneud hynny);
 - cadwch eich pwysau mor bell yn ôl â phosibl ar y sedd;
 - cyfeiriwch y peiriant yn syth i lawr y rhiw;
 - os oes angen, defnyddiwch y brêc ôl yn unig (dylech fod yn ymwybodol, ar beiriannau gyriant pedair olwyn, y bydd defnyddio'r brêc ôl hefyd, o bosibl, yn cael effaith frecio ar yr olwynion blaen);
 - byddwch yn ymwybodol o'r risg y gallai'r brêcs gloi ac achosi ichi lithro;
 - os ydych yn llithro, gollyngwch eich gafael ar y brêc a sythu'r cerbyd amldirwedd;
 - ar lethrau serth iawn bydd angen ardal wastad ar y gwaelod.

Mewn ardaloedd gwlyb a chorsiog:

- peidiwch â gyrru drwy ddŵr sy'n ddyfnach na 250mm;
- os yw injan eich cerbyd amldirwedd yn pallu, dewch oddi ar y cerbyd ar ochr uchaf y llif;
- profwch eich brêcs ar ôl gyrru trwy ddŵr;

Cario llwyth - Mae angen i'r gyrrwr wybod:

- beth yw'r terfynau cario y mae'r gwneuthurwr yn eu hargymell;
- uchafswm y capasiti llwytho ar y blaen a'r cefn;
- uchafswm llwyth y cerbyd amldirwedd;

- sut y bydd llwyth ar y blaen a'r cefn yn effeithio ar sefydlogrwydd.

Rhaid i yrwyr sicrhau bod pob llwyth wedi'i ddiogelu'n iawn a'i ddosbarthu er mwyn caniatáu ar gyfer tirwedd anodd, a rhaid i unrhyw lwythi trwm ar y cludwr ôl gael eu gwrthbwysu gan ddefnyddio balast ar y cludwr blaen. Wrth gario llwythi ar gerbyd amldirwedd y gallwch eistedd ynddo, dylid sicrhau nad yw ardal y cargo yn cael ei gorlwytho.

Llwythi a dynnir - Wrth ddewis cyfarpar a dynnir, mae angen i staff gadw llygad am:

- brêcs gor-reddeg;
- bar tynnu â bachyn tro;
- ymylon sy'n dal rhimyn y teiars ar yr olwynion;
- craidd disgyrchiant isel a thrac llydan rhwng yr olwynion;
- bar tynnu hir;
- manau cyswllt er mwyn diogelu'r llwyth.

Rhaid i'r gyrrwr gysylltu pob llwyth â'r bachyn tynnu yn unig, ac nid ag unrhyw ran arall o'r cerbyd amldirwedd, a rhaid iddynt wybod:

- uchafswm y pwysau tynnu (trelar a llwyth);
- uchafswm y pwysau tafod (pwysau ar y man bachu);
- uchafswm pwysau cyfun y tafod a'r cludwr ôl.

Dylai gyrrwr fod yn ymwybodol:

- ei bod yn anodd iawn dadfachu trelar llawn ar lethr;
- gall y gallu i droi gael ei gyfyngu wrth dynnu trelar;
- dylid osgoi troi ar draws llethrau;
- wrth wthio cyfuniad o gerbyd amldirwedd/trelar, ni ddylai unrhyw berson sefyll rhwng y cerbyd amldirwedd a'r trelar.

Cludo cerbydau amldirwedd - Cyn llwytho cerbyd amldirwedd ar drelar cludo, gwiriwch beth yw capasiti llwyth y trelar.

Wedi llwytho, sicrhewch fod y cerbyd amldirwedd wedi'i glymu'n ddiogel. Peidiwch â dibynnu ar frêcs y cerbyd amldirwedd i'w atal rhag symud ar y trelar.

Defnyddio ar y ffordd - Ni ddylid defnyddio cerbydau amldirwedd ar unrhyw briffordd gyhoeddus oni bai eu bod wedi'u dylunio'n benodol i wneud hynny a'u bod yn cydymffurfio â Rheoliadau Cerbydau Ffordd (Adeiladwaith a Defnydd) 1986 a Rheoliadau Goleuo Cerbydau Ffordd 1989. Rhaid iddynt hefyd fod â'r yswiriant priodol a chwrdd ag unrhyw ofynion trethu cerbydau.

Tractorau

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Rhaid ichi fynd ar gwrs hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan y Brifysgol cyn y caniateir ichi yrru'r math hwn o gerbyd. Darllenwch lawlyfr y peiriant yn drwyadl ac ymgylfarwyddo â'r holl symbolau a chyfarpar diogelwch. Byddai'n ddefnyddiol ichi gofio'r pwyntiau canlynol:

Gwiriadau - Mae hi bob amser yn bwysig cynnal gwiriadau ar eich tractor cyn ichi ei yrru er mwyn sicrhau bod popeth yn gweithio. Gwnewch yn siŵr bod y tractor mewn cyflwr diogel i'w ddefnyddio. Gwiriwch fod y goleuadau'n gweithio, cadwch y grisiau yn lân bob amser er mwyn gallu cael mynediad, a gwiriwch y PTO a rheolyddion y fraich godi.

Cynnal a chadw - Er mwyn sicrhau nad yw cyfarpar gwaith yn dirywio i'r fath raddau fel y gallai beri risg i bobl, mae angen i reolwyr sy'n rheoli cyfarpar gwaith, dan y Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith (PUWER), 'eu cadw mewn cyflwr effeithlon, yn gweithio'n effeithlon ac mewn cyflwr da o ran eu trwsio'.

Dylid penderfynu ar amllder a natur y gwaith cynnal a chadw trwy gynnal asesiadau risg, gan roi ystyriaeth lawn i:

- argymhellion y gwneuthurwr
- dwysedd y defnydd

- yr amgylchedd gweithredu (e.e. effaith tymheredd, cyrydiad, hindreuliad)
- gwybodaeth a phrofiad y defnyddiwr
- y risg i iechyd a diogelwch yn sgil unrhyw fethiant neu ddiffyg y gellid ei ragweld

Os oes llwythwr ar y tractor, bydd angen ei archwilio'n drwyadl dan Reoliadau Gwaith Codi a Chyfarpar Codi 1998, unwaith bob 12 mis (neu unwaith bob 6 mis os cânt eu defnyddio i godi pobl) gan drydydd parti.

Byddwch yn bwylllog ac yn ymwybodol - Pan fyddwch yn gyrru, peidiwch byth â symud y tractor nes eich bod yn gwbl ymwybodol o sut y mae'r holl gyfarpar rheoli yn gweithio ac ym mhle y maent. Byddwch yn bwylllog a pheidiwch byth â rhuthro wrth ddefnyddio'r tractor. Defnyddiwch y drefn gywir o ran y sbardun er mwyn arafu, defnyddiwch y drychau wrth symud tuag yn ôl, a defnyddiwch y corn i rybuddio unrhyw sy'n sefyll gerllaw. Ewch i lawr yn raddol drwy'r gêrs wrth baratoi i stopio.

Defnyddiwch y system gywir o ran bachu - Wrth fachu, gwnewch yn siŵr eich bod chi bob amser yn defnyddio'r system fachu gywir. Dim ond o sedd y tractor y dylech ddefnyddio'r rheolyddion, ac ni ddylech fyth sefyll rhwng tractor a pheiriannau eraill, nac ychwaith y tu ôl iddynt. Peidiwch byth â sefyll gyda'ch traed o dan neu ger barrau tynnu, a sicrhewch fod jaciau, llithrynnau ac ategion eraill yn cael eu defnyddio ac yn cael eu cadw mewn cyflwr da.

Mae angen profiad wrth ymdrin â thractor - Fe'ch cynghorir i sicrhau bod pobl amhrofiadol yn cael eu goruchwyllo wrth fachu a dadfachu trelars a chyfarpar. Peidiwch byth â mynd rhwng peiriant sydd wedi'i osod yn hydrolog a'r tractor, nac ychwaith roi eich traed o dan rannau a allai gwmpo e.e. bar tynnu.

Gwiriwch y tirwedd bob amser - Pan fyddwch yn y tractor ac yn gwneud gwaith, gwiriwch bob amser nad oes unrhyw beryglon ar y tir yr ydych yn gyrru'r tractor drosto, megis llethrau serth neu fannau lle bu cloddio.

Byddwch yn ofalus o beryglon ceblau uwchlaw - Ni ddylid fyth ddefnyddio tractorau neu beiriannau os ceir peryglon yn sgil ceblau trydan uwchlaw.

Y Weithdrefn Stopio Diogel - Defnyddiwch y weithdrefn Stopio Diogel bob tro. Tynnwch y pwysau oddi ar y sbardun mewn da bryd, arhoswch nes bod y tractor wedi arafu digon, gwasgwch bedal y clytsh, defnyddiwch y brêcs yn raddol, parciwch mewn lle addas bob amser, stopiwch yr injan a defnyddio'r brêc llaw, gostyngwch yr holl gyfarpar sydd wedi'u cysylltu'n hydrolig, ac yn olaf tynnwch yr allwedd allan.

Dull y Safle Tractor Diogel - Defnyddiwch Dull y Safle Tractor Diogel. Wrth fynd i mewn ac allan o'r tractor, defnyddiwch y grisiau mynediad a'r cynhalwyr dwylo bob tro, addaswch safle'r sedd er mwyn gallu defnyddio'r rheolyddion yn gyfforddus, ac addaswch y drych fel y gallwch weld yn glir.

Cadwch y tractor yn glir o beryglon - Cadwch y lloriau, drysau a phedalaau yn glir a chadwch eich esgidiau gwaith yn lân. Peidiwch â chadw pethau fel offer, pinnau barrau tynnu, rhaffau ac ati ar lawr y cab.

Byddwch yn ymwybodol o'r holl fannau dall - Wrth yrru, gwnewch yn siŵr nad oes neb yn agos atoch cyn ichi danio'r injan, a chadwch lygad bob amser am bobl, rhwystrau a manau dall. Treuliwch amser yn glanhau'r ffenestri a'r drychau fel y gallwch weld, a gwiriwch bob amser bod y brêcs wedi'u cloi ynghyd.

Cloddwyr

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Rhaid ichi fynd ar gwrs hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan y Brifysgol cyn y caniateir ichi yrru'r math hwn o gerbyd. Darllenwch lawlyfr y peiriant yn drwyadl ac ymgyfarwyddo â'r holl symbolau a chyfarpar diogelwch. Byddai'n ddefnyddiol ichi gofio'r pwyntiau canlynol:

Darllenwch y Llawlyfr Diogelwch - Y cam cyntaf cyn defnyddio cloddiwr bach yw darllen y llawlyfr diogelwch. Y rheswm am hyn yw oherwydd bod angen i ddiogelwch y sawl sy'n defnyddio'r cloddiwr fod yn bwysicach na dim. Ymhlith y cyngorion diogelwch cyffredinol mae: cadw'r pwysau cywir, peidio â gweithio pan fo'r cloddiwr wedi'i godi a sicrhau bod gan y defnyddiwr y dillad gwaith cywir.

Cynnal gwiriad cyn tanio - Ar ôl darllen y llawlyfr, y peth nesaf y dylid ei wneud yw cynnal y gwiriadau cyn tanio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod y goleuadau arwyddo a golau'r mesurydd yn gweithio'n iawn. Gwiriad arall yw sicrhau bod y gwregys yn ei le ac yn gweithio. Ni ddylai gyrwyr fyth ddefnyddio cloddiwr bach os nad ydynt yn gwisgo eu gwregys. Gwnewch yn siŵr nad oes neb arall yn y cloddiwr a'ch bod chi'n darllen yr holl sticer rhybudd sydd wedi'u gosod ar y cloddiwr.

Symud - Pan fydd y cloddiwr bach yn cael ei ddefnyddio ac yn symud, mae'n bwysig sicrhau bod traciau'r peiriant yn dilyn llinell syth. Mae angen llywio'r peiriant mewn llinell syth i'r graddau y bo hynny'n bosibl, a phan fo angen newid cyfeiriad dylid gwneud hynny'n raddol ac nid yn ddirybudd. Ar dir anwastad, dylid symud yn araf, ac mewn ardal sydd ar oledf mae angen symud i fyny neu i lawr yn hytrach nag ar letraws gan y gallai hyn achosi i'r peiriant droi drosodd.

Cloddio - Cyn y gall y cloddiwr bach ddechrau cloddio mae'n bwysig sicrhau bod y tir yn wastad. Mae'n bwysig bod y tir yn wastad oherwydd bydd y cloddiwr bach yn fwy sefydlog a bydd y gwaith gymaint yn rhwyddach. Yn ystod y cloddio, ni ddylid lleoli'r cloddiwr bach yn rhy agos at yr ymyl achos po fwyaf y gweithiwr, y mwyaf ansefydlog fydd y ddaear a gallai achosi i'r peiriant droi drosodd.

Diffodd - Wedi'r gwaith rhaid diffodd y cloddiwr bach, ac mae ambell beth y dylid eu cadw mewn cof wrth wneud hynny. Rhaid i'r peiriant fod ar dir gwastad a bydd angen gostwng y llafn a'r bwced. Mae angen gosod yr RPM yn isel cyn diffodd yr injan, nid ar ôl ei diffodd.

Trelars a Chyfarpar a Dynnir

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Rhaid ichi fynd ar gwrs hyfforddiant sydd wedi'i gymeradwyo gan Brifysgol Aberystwyth a gwirio gyda'r adran Teithio a Fflyd a oes gennych y caniatâd cywir ar eich trwydded yrru er mwyn tynnu cerbyd ar y briffordd gyhoeddus. Mae'r pwyntiau canlynol yn rhoi cyngor ar yr arferion gorau:

- Gwnewch yn siŵr wrth brynu'r trelar neu'r chyfarpar a dynnir bod ganddo system frecio addas sy'n cyfateb i'r tractor, a gwnewch yn siŵr bod y cyflenwr yn rhoi gwybodaeth am effeithlonrwydd breicio wrth ichi brynu.
- Gwiriwch y llawlyfr i ganfod beth yw'r isafswm oedran er mwyn cael defnyddio'r peiriant / trelar.
- Er mwyn tynnu trelar neu gyfarpar yn ddiogel rhaid defnyddio tractor digon mawr a dewis yr offer mwyaf addas er mwyn gallu stopio'r ddau beth ynghyd o fewn pellter diogel.
- Bydd angen gwneud gwiriad â'r llygaid cyn defnyddio'r chyfarpar wedi iddo gael ei gysylltu â'r cerbyd / tractor a chyn gyrru i ffwrdd. Sicrhewch nad yw mecanwaith breicio methu diogel y trelar yn ddiffygiol mewn unrhyw fodd a'i fod wedi'i gysylltu'n iawn.
- Bydd angen cynnal a chadw ac addasu systemau breicio yn drwyadl ar gyfer cyfuniadau tractor-trelar er mwyn sicrhau eu bod yn effeithlon ac yn ddiogel. Mae'n bosibl y bydd angen profi wrth symud ar ôl i waith cynnal a chadw gael ei wneud.
- Bydd angen cadw bachiadau brêcs hydrolog ac aer yn lân ac osgoi halogi.
- Gwnewch yn siŵr bod y cysylltiadau wedi'u hiro'n iawn ac yn gweithio'n rhydd, a sicrhewch eu bod yn cael eu cadw mewn cyflwr da.
- Gwiriwch fod y brêc parcio'n gweithio'n iawn - maent yn tueddu i gloi os cânt eu hesgeuluso.

- Ar ôl eu defnyddio, glanhewch unrhyw fwd a halogiad o'r brêcs (gan gynnwys y brêcs parcio).
- Gwnewch yn siŵr nad yw'r dull o lanhau a ddefnyddir yn peri i'r brêcs ddirywio (e.e. rhydu a achosir gan olchi â gwasgedd).
- Mae angen gwirio tractorau nad oes ganddynt system frecio hunansadio yn fwy rheolaidd er mwyn gwneud yn siŵr bod y brêcs yn gytbwys.
- Dilynwch argymhellion y gwneuthurwr o ran pa mor aml a manwl y dylai archwiliadau fod.
- Mae'n bosibl y bydd ambell leinin brêc hŷn yn cynnwys asbestos. Cymerwch gamau diogelu priodol er mwyn osgoi anadlu llwch i mewn, ac wrth gael gwared â deunydd gwastraff.
- Gwnewch yn siŵr bod y sawl sy'n defnyddio'r peiriannau yn gyfarwydd â'r modd y mae systemau brecio aer yn gweithio (os mai dyna sydd wedi cael ei ffitio) fel eu bod yn gwybod sut i gysylltu a datgysylltu'r trelar yn ddiogel.
- Llwythwch ben blaen y trelar yn gyntaf bob amser, a rhowch 60 y cant o'r pwysau y tu blaen i'r echel flaen, gan ei ddsbarthu'n gyfartal
- Sicrhewch fod eich llwyth mor isel â phosibl yn eich trelar ac, os oes angen, defnyddiwch raffau a strapiau rhwymo i'w ddiogelu fel bod eich taclau wedi'u hangori'n gadarn. Gall eitemau nad ydynt wedi'u diogelu'n iawn effeithio ar gydbwysedd eich cerbyd a sefydlogrwydd y trelar
- Pan fydd eich trelar wedi'i gysylltu â'ch cerbyd bydd angen ichi addasu'r modd yr ydych yn gyrru gan y bydd nodweddion trin arferol y cerbyd yn newid
- Cynlluniwch eich taith o flaen llaw a chadwch lygad am beryglon a allai achosi problemau. Gadewch amser a phellter ychwanegol rhyngoch chi a cherbydau eraill ar y ffordd pan fyddwch yn tynnu trelar fel y gallwch stopio'n ddiogel

- Caniatewch amser ychwanegol ar gyfer newid lôn a goddiweddyd cerbydau eraill - mae ychwanegu trelar yn ychwanegu pwysau a hyd at y cerbyd sy'n tynnu, gan olygu y cymer fwy o amser i gyflymu
- Cadwch hyd ychwanegol eich cerbyd mewn cof pan fyddwch yn gyrru tuag yn ôl neu'n teithio o amgylch troadau neu gorneli. Ni fydd eich trelar yn dilyn yr un llwybr yn union â'r cerbyd sy'n ei dynnu, felly tynnwch allan fwy nag arfer wrth droi
- Wrth deithio i fyny rhiwiau mawr neu ar hyd ffyrdd graeanog, defnyddiwch gêr is er mwyn hwyluso'r trawsyriant ac, yn yr un modd, arafwch cyn mynd i lawr rhiwiau ac, os oes angen, defnyddiwch yr un gêr isel wrth ichi fynd i lawr
- Cadwch lygad am dyllau neu rwystrau ar y ffordd a allai ddifrodi eich cerbyd neu eich trelar ac effeithio ar sefydlogrwydd
- Os yw eich trelar yn dechrau troelli yn dilyn gwth o wynt neu wedi i gerbyd mwy yrru heibio, gostyngwch eich cyflymder yn raddol trwy leihau'r pwysau ar y sbardun yn raddol, ac osgoi brecio
- Peidiwch byth â thynnu trelar sy'n parhau i siglo - stopiwch, ail-lwytho eich trelar a cheisio datrys y broblem. Os yw'n parhau, gofynnwch am gyngor proffesiynol
- Pan fyddwch yn parcio, ceisiwch ganfod man lle gallwch dynnu ymlaen wrth yrru i ffwrdd, fel nad oes angen ichi yrru am yn ôl.

Cerbydau Cyfleus Trydan (*Electric Utility Vehicles*) - E-Gators

Aseu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Wrth ddefnyddio unrhyw gerbyd cyfleus trydan, mae'n holl bwysig bod y sawl sy'n gyrru'r cerbyd wedi cael hyfforddiant priodol a gymeradwywyd gan PA a'u bod yn defnyddio'r cerbyd yn unol â llawlyfr gweithredu'r gwneuthurwr.

Mae'r pwyntiau canlynol yn fesurau diogelu cyffredinol er mwyn defnyddio cerbyd cyfleus trydan yn ddiogel.

- Mynnwch gip ar y goleuadau, y teiars a lefelau'r batri cyn defnyddio'r cerbyd. Rhowch wybod am unrhyw nam yn ddi-oed.
- Dylid sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gadw mewn cyflwr da gan berson cymwys.
- Gwisgwch wregys os oes un yn cael ei ddarparu.
- Gyrrwch yn araf a throi'n esmwyth er mwyn osgoi troi'r cerbyd drosodd.
- Defnyddiwch y golau rhybuddio am berygl ar ffyrdd cyhoeddus, a gwisgo gwregys bob amser.
- Wrth gario llwyth, mae'r craidd disgyrchiant yn cael ei godi, gan ei gwneud hi'n fwy tebygol y bydd y cerbyd yn troi drosodd. Ni ddylech fyth gario llwythi sy'n fwy na'r capasiti a argymhellir, a rhaid eu diogelu a'u gosod uwchlaw neu o flaen yr echel ôl.
- Dylid cadw breichiau a choesau y tu mewn i'r cerbyd trwy gydol yr amser y bydd y cerbyd yn symud. Rhaid i deithwyr fod yn eu sedd eu hunain, ac nid yn unrhyw le arall ar yr UTV.
- Rhaid i yrwyr ildio i gerddwyr bob amser, a rhaid iddynt fod yn ymwybodol o beryglon posibl iddynt hwy eu hunain ac i eraill.
- Cadwch yn glir o ffosydd ac argloddiau.
- Wrth adael y cerbyd wedi'i barcio, dylech bob amser dynnu'r allwedd danio allan a sicrhau bod y lifer gyrru yn niwtral a'r brêc llaw ymlaen.
- Peidiwch byth â cheisio dod oddi ar y cerbyd oni bai ei fod wedi'i barcio'n gywir.
- Dilynwch y cyfarwyddiadau i wefru'r batri'n ddiogel. Dim ond y gwefrwr batri a ddarparwyd gyda'r cerbyd cyfleus y dylech ei ddefnyddio, a hynny mewn man sydd wedi'i awyru'n dda.

Llwythwr Llywio Sgid

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Wrth ddefnyddio unrhyw lwythwr llywio sgid, mae'n holl bwysig bod y sawl sy'n gyrru'r cerbyd wedi cael hyfforddiant priodol a gymeradwywyd gan PA a'u bod yn defnyddio'r llwythwr yn ddiogel yn unol â llawlyfr gweithredu'r gwneuthurwr.

Mae'r pwyntiau canlynol yn fesurau diogelu cyffredinol er mwyn defnyddio llwythwr llywio sgid yn ddiogel:

- Cyd-gloeon ar y Rheolyddion - Er mwyn atal gweithredu'r rheolyddion yn anfwriadol, ceir systemau rheoli cyd-gloëdig ar lwythwyr llywio sgid. Mae'r systemau rheoli cyd-gloëdig hyn yn golygu bod angen i ddyfais ddiogelwch megis gwregys gael ei gau neu i far atal fod yn ei le yn iawn cyn y gall y rheolyddion weithio. Mae hyn yn sicrhau bod y sawl sy'n eu defnyddio yn eistedd mewn man diogel, oddi wrth ardal symud y fraich godi, cyn y gellir rhoi'r peiriant ar waith.
- Strwythurau Diogelu wrth Droï Drosodd ac Ataliadau ar gyfer y Defnyddiwr - Mae gan lwythwyr llywio sgid hefyd strwythurau diogelu wrth droï drosodd (ROPS) a gwregysau diogelwch er mwyn cadw'r defnyddiwr o fewn y peiriant os bydd yn troi drosodd. Darperir Strwythurau Diogelu rhag Gwrthrychau'n Cwmpo (FOPS) i ddiogelu'r defnyddiwr rhag cael ei daro gan wrthrychau sy'n cwmpo.
- Sgriniau Ochr - Mae sgriniau ochr metel neu wydr sydd wedi'u hintegreiddio â'r ROPS yn atal y defnyddiwr rhag gogwyddo neu estyn allan o gerbyd y gyrrwr a dod i gysylltiad â braich godi wrth iddi symud. Gall sgriniau ochr hefyd ddiogelu'r gyrrwr rhag cael ei anafu gan falurio neu wrthrychau sy'n dod i mewn i gerbyd y gyrrwr.

Defnyddio a Chynnal a Chadw Dyfeisiau Diogelwch a ddarperir gan y Gwneuthurwr

Dylech archwilio a chynnal a chadw'r holl ddyfeisiau diogelwch a ddarperir gan y gwneuthurwr yn rheolaidd.

Ategu'r fraich godi - Defnyddiwch y ddyfais ategu'r fraich godi a ddarperir neu a argymhellir gan y gwneuthurwr ar unrhyw adeg pan fydd angen gweithio neu symud o gwmpas y peiriant â'r fraich wedi'i chodi. Mae peiriannau sy'n cael eu cynhyrchu yn awr naill ai â dyfeisiau ategu â phin (y gellir eu gweithredu o'r tu mewn i gab y gyrrwr) neu ddyfeisiau ategu â chynhalbren (y gellir hefyd eu gweithredu o'r tu mewn i'r cab neu a fydd o bosibl angen cymorth cyd-weithiwr). Os nad oes dyfais ategu braich godi ar y peiriant, neu os yw'r ddyfais wedi'i difrodi, cysylltwch â gwerthwr neu wneuthurwr y cyfarpar er mwyn canfod beth yw'r weithdrefn gywir o ran ategu'r fraich, neu i gael rhannau newydd.

Rheolyddion cyd-gloëdig - Bydd angen archwilio'r rheolyddion cyd-gloëdig yn rheolaidd, a'u cadw mewn cyflwr priodol er mwyn eu defnyddio. Mae'r systemau hyn yn golygu bod angen i'r gyrrwr fod yn y lle priodol ac yn gwisgo gwregys cyn y gellir defnyddio'r llwythwr. Peidiwch byth ag osgoi'r rheolyddion cyd-gloëdig. Gwnewch yn siŵr bod y gwregys wedi'i gau'n ddiogel am y gyrrwr pan fydd y llwythwr yn cael ei ddefnyddio. Defnyddiwch y bar atal bob amser os oes un ar gael.

Gwregysau diogelwch- Sicrhewch fod y gwregys diogelwch wedi'i gau am y gyrrwr pryd bynnag y bydd yn eistedd yn y sedd. Mae'r gwregys yn diogelu'r gyrrwr mewn sawl ffordd. Os bydd y peiriant yn troi drosodd, mae'r gwregys yn cadw'r gyrrwr o fewn y man a ddiogelir gan y ROPS. Gall y gwregys hefyd ddiogelu'r gyrrwr rhag cwmpo allan neu gael ei wthio i fan gweithredu'r fraich godi a'r fwced. Os defnyddir y gwregys yn rhan o'r system reoli gyd-gloëdig, mae'n diogelu gweithwyr rhag cael eu dal a'u gwasgu rhwng y fraich godi a'r ffrâm.

Gweithredu'n Ddiogel

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi sicrhau bod yr holl yrwyr yn deall holl rybuddion a chyfarwyddiadau'r cynhyrchwyr cyn iddynt ddefnyddio llwythwr llywio sgid. Cyngorior y staff i ddefnyddio'r drefn weithredu ddiogel ganlydol:

- Darllenwch a deall yr holl weithdrefnau diogelwch a gweithredu a amlinellir yng nghanllaw'r gyrrwr, a'r llyfryn gwasanaeth.
- Dim ond pan fyddwch yn eistedd yn iawn yng ngherbyd y gyrrwr y dylech weithredu'r llwythwr - a byth o'r tu allan.
- Arhoswch yn eich sedd wrth ddefnyddio rheolyddion y llwythwr.
- Clymwch y gwregys amdanoch yn dynn a rhowch y bar atal (os oes un) yn y safle priodol cyn defnyddio'r llwythwr.
- Cadwch eich dwylo, breichiau, coesau, a phen y tu mewn i gerbyd y gyrrwr wrth ddefnyddio'r llwythwr.
- Ceisiwch lwytho, dadlwytho, a throï ar dir gwastad, pryd bynnag y bo modd.
- Teithiwch a throï â'r bwced yn y safle isaf posibl. Cludwch y llwyth yn isel.
- Peidiwch byth â chario llwyth sy'n drymach na'r capasiti llwyth y mae'r gwneuthurwr yn ei argymhell ar gyfer y peiriant.
- Gweithredwch ar arwynebau sefydlog yn unig. Osgowch arwynebau llithrig.
- Osgowch deithio ar draws llethrau - teithiwch yn syth i fyny neu i lawr llethrau, â phen trwm y peiriant wedi'i gyfeirio i fyny'r rhiw.
- Edrychwch i'r cyfeiriad yr ydych yn teithio iddo bob amser.
- Cadwch unrhyw wylwyr oddi wrth yr ardal waith.
- Peidiwch BYTH ag addasu neu osgoi dyfeisiau diogelwch.
- Peidiwch byth â chludo teithwyr.
- Byddwch yn ymwybodol y gall pob peiriant weithio mewn ffordd wahanol.

Mynd i Mewn ac Allan o'r Llwythwr yn Ddiogel

- Ewch i mewn ac allan pan fydd y bwced neu unrhyw ategyn arall yn fflat ar y ddaear neu pan fydd y ddyfais ategu'r fraich godi yn ei lle. Defnyddiwch y ddyfais ategu'r fraich godi a ddarperir neu a argymhellir gan y gwneuthurwr.
- Wrth fynd i mewn i'r llwythwr, wyneb wch y sedd a chadwch gyswllt tri-phwynt â'r manau gafael a'r grisiau.
- Peidiwch byth â defnyddio'r rheolyddion traed na dwylo fel grisiau neu fannau gafael. Cadwch yr holl arwynebau cerdded a gwaith yn lân a heb unrhyw falurion arnynt.
- Cyn gadael sedd y gyrrwr,

- rhowch y fwcad neu unrhyw ategyn arall yn fflat ar y ddaear,
- defnyddiwch y brêc parcio,
- diffoddwch yr injan.
- Os na allwch fynd allan trwy'r brif fynedfa ar gyfer y peiriant, defnyddiwch yr allanfa frys yng nghefn cerbyd y gyrrwr neu yn unol â'r hyn a nodir gan y gwneuthurwr.

Cadw'r Llwythwr mewn Cyflwr Diogel i'w Ddefnyddio

- Dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr o ran cynnal a chadw'r llwythwr.
- Glanhewch unrhyw fwd, rhew, eira, a malurion oddi ar y rheolyddion traed ac o gerbyd y gyrrwr.
- Dylech archwilio a chynnal a chadw'r dyfeisiau diogelwch canlynol yn rheolaidd:
 - Cyd-gloeon ar y rheolyddion
 - Gwregysau diogelwch
 - Barrau atal
 - Sgriniau ochr
 - Strwythurau diogelu wrth droi drosodd (ROPS)
 - Strwythurau diogelu rhag gwrthrychau'n cwmpo (FOPS)
- Peidiwch BYTH ag addasu neu osgoi dyfeisiau diogelwch.

Cerbydau torri gwair

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Wrth ddefnyddio unrhyw gerbyd torri gwair, mae'n holl bwysig bod y sawl sy'n gyrru'r cerbyd wedi cael hyfforddiant priodol a gymeradwywyd gan PA a'u bod yn defnyddio'r cerbyd yn unol â llawlyfr gweithredu'r gwneuthurwr.

Mae'r pwyntiau canlynol yn fesurau diogelu cyffredinol er mwyn defnyddio cerbydau torri gwair yn ddiogel.

- Dylid sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gadw mewn cyflwr da gan berson cymwys.

- Mynnwch gip ar y teiars a'r gardiau cyn defnyddio'r cerbyd.
- Gwnewch archwiliad o'r safle. Cliriwch unrhyw falurion o'r ardal lle'r ydych am dorri'r gwair, a sicrhewch nad oes unrhyw yn sefyll yno.
- Gyrrwch yn araf, yn enwedig wrth droi, a chadwch eich traed ar y deciau.
- Torrwch tuag i fyny ac i lawr ar lethrau. Peidiwch byth â thorri ar draws llethr.
- Mynnwch gip y tu ôl i chi bob amser cyn gyrru am yn ôl.
- Os nad yw'r torrwr yn stopio'n awtomatig pan fydd y gyrrwr yn codi oddi ar sedd y gyrrwr, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n diffodd y llafnau'n llwyr cyn dod oddi ar y torrwr, hyd yn oed os mai dim ond am gyfnod byr yr ydych yn dod oddi arno.
- Cofiwch bob amser wisgo cyfarpar diogelu'r llygaid a'r clyw, esgidiau diogelwch a throwsus hir.
- Rhaid rhoi tanwydd yn y peiriant cyn dechrau gweithio. Gadewch i'r injan oeri cyn llenwi â thanwydd.

Dyrnwyr medi gan gynnwys dyrnwyr medi plot

Asesu Risg - Cyn cyflawni tasg gan ddefnyddio'r cerbyd hwn, cyfeiriwch at yr asesiad risg perthnasol.

Hyfforddiant - Wrth ddefnyddio unrhyw ddyrnwr medi, mae'n holl bwysig bod y sawl sy'n defnyddio'r dyrnwr wedi cael hyfforddiant priodol a gymeradwywyd gan PA a'i fod yn defnyddio'r dyrnwr yn ddiogel yn unol â llawlyfr gweithredu'r gwneuthurwr.

Mae'r pwyntiau canlynol yn fesurau diogelu cyffredinol er mwyn defnyddio dyrnwr medi yn ddiogel.

- Y mesur diogelwch pwysicaf yw dilyn y weithdrefn stopio diogel cyn gwneud unrhyw waith cynnal a chadw neu addasiadau, gan gynnwys ymdrin â rhwystr neu broblem arall:

- Defnyddio'r brêc llaw
 - Rhoi'r rheolyddion mewn niwtral
 - Diffodd yr injan
 - Tynnu'r allwedd allan
- Dylid sicrhau bod y cerbyd yn cael ei gadw mewn cyflwr da gan berson cymwys.
- Dylid gwirio bod pob gard yn ei le ac wedi'i ffitio'n iawn cyn dechrau gweithio. Peidiwch â defnyddio'r dyrnwr â'r gardiau wedi'u codi.
- Peidiwch byth â chario teithwyr ar y dyrnwr oni bai eu bod mewn sedd benodol ar gyfer teithiwr, a pheidiwch â mynd ar y dyrnwr na dod oddi arno pan fydd yn symud.
- Sicrhewch nad oes unrhyw berson arall o fewn ardal waith y peiriant.
Wrth gasglu samplau o'r dyrnwyr plot porthiant, rhaid i'r gyrrwr a'r bobl sy'n samplu fod yn ofalus ac yn wyladwrus.
- Defnyddiwch y golau rhybuddio am berygl ar ffyrdd cyhoeddus.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cadw'r drychau ôl yn lân ac wedi'u haddasu'n gywir.
- Byddwch yn arbennig o ofalus wrth yrru tuag yn ôl gan y gall fod yn anodd iawn gweld wrth wneud hyn. Os nad oes larwm awtomatig ar y peiriant pan fydd yn cael ei yrru tuag yn ôl, seiniwch y corn cyn tanio'r injan neu yrru tuag yn ôl er mwyn helpu i dynnu sylw pobl eraill.
- Caniatewch ddigon o amser arafu cyn mynd yn agos at gefn y dyrnwr.
- Peidiwch byth ag agor neu dynnu dyfeisiau diogelu allan pan fydd yr injan yn rhedeg.
- Os ydych yn dadlwytho'r dyrnwr wrth symud, bydd angen ichi gynllunio a chydlynu eich symudiadau'n ofalus er mwyn cyd-fynd â'r cyfuniadau tractor/trelar sy'n gweithio gyda chi.
- Cadwch ddrws y cab ar gau er mwyn cadw llwch a sŵn allan.
- Gwisgwch offer diogelu'r clyw wrth ddefnyddio dyrnwyr medi plot bach. Mae'n bosibl y bydd angen offer diogelu anadlol wrth

ddyrru-fedi rhai cnydau - dilynwch y mesurau rheoli yn yr asesiad risg.

- Cymerwch ofal ar lethrau, ac osgowch newid cyfeiriad yn sydyn. Parciwch ar dir gwastad os oes modd. Os oes rhaid ichi barcio ar lethr, parciwch ar ei draws. Breiciwch a throï'n ofalus wrth fynd i lawr rhiwiau ac ar lethrau sydd ar letraws.
- Cofiwch bob amser ddefnyddio'r ysgolion mynediad, y grisiau ac/neu'r llwyfannau sefyll a ddarperir.
- Darparwch a defnyddio offer mynediad addas os oes angen gweithio ar uchder er mwyn glanhau a chynnal a chadw.
- Aseswch y risg a achosir gan geblau pŵer uwchlaw cyn dechrau ar unrhyw waith, a defnyddiwch system weithio ddiogel wrth gynaeafu caeau lle ceir ceblau uwchlaw. Ystyriwch uchder y dyrnwr a ddefnyddir, ac uchder isaf a lleoliad y ceblau uwchlaw'r caeau yr ydych yn eu cynaeafu, ac ystyriwch lwybrau teithio diogel rhwng caeau/safleoedd gwaith gan gadw'r pellteroedd clirio diogel mewn cof.
- Peidiwch byth â pharcio'r dyrnwr, gwneud gwaith cynnal a chadw nac ymestyn y bibell wagio pan fyddwch islaw neu gerllaw ceblau pŵer.
- Cofiwch lanhau gwellt, us ac/neu borthiant sydd wedi ymgasglu o amgylch yr injan a'r beltiau a'r pwlliau yn rheolaidd er mwyn lleihau'r risg o dân.
- Ewch â chyfarpar diffodd tân addas gyda chi, a sicrhewch eu bod yn cael eu gwirio a'u cynnal a'u cadw.
- Ymdrin â rhwystrau -
 - Datblygwch system ddiogel o weithio er mwyn ymdrin ag unrhyw broblemau sy'n codi gyda'r dyrnwr, a dilynwch y gweithdrefnau a amlinellir yn llawlyfr y defnyddiwr. Peidiwch ag estyn i mewn i'r blaen gyda braich na choes, ceisio clirio unrhyw rwystr, na dringo neu estyn i mewn i'r tanc grawn oni bai eich bod yn dilyn y weithdrefn stopio diogel.
 - Defnyddiwch eich offerynnau a gwyllo a gwrando am rwystrau posibl - mae osgoi rhwystrau yn haws na cheisio'u clirio.

- Peidiwch â defnyddio'r peiriant y tu hwnt i'w gapasiti - peidiwch â'i orlwytho.